

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cylch Gorchwyl

Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol

Mehefin 2020

Cylch Gorchwyl

Mae gwaith y Cyngor yn cael ei gychwyn, ei reoli a'i fonitro gan y Cyngor ei hun a chan gyfres o Pwyllgorau y mae'r Cyngor yn dirprwyo rhai pwerau penodol iddynt. Mae'r Pwyllgorau islaw'r Cyngor yn y strwythur Llywodraethu. Ar wahân i'r meysydd hynny lle mae'r Cyngor wedi dirprwyo tasgau diffiniedig a/neu awdurdod diffiniedig i weithredu, rôl cynghori sydd gan y Pwyllgorau. Maent yn adrodd i'r Cyngor ar berfformiad y gweithgareddau hynny sy'n dod o fewn cylch gwaith pob Pwyllgor. Bydd y Pwyllgorau hefyd yn dwyn i sylw'r Cyngor unrhyw faterion sy'n peri pryder, neu feysydd ar gyfer gwella.

Mae tri Phwyllgor â phwerau dirprwyedig sy'n darparu cyngor a sicrwydd i'r Cyngor wrth iddo arfer ei swyddogaethau. Y rhain yw: y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol, a'r Pwyllgor Cyfalaf. Mae gan y Pwyllgor Cyfalaf bwerau dirprwyedig gan y Cyngor hefyd i gymeradwyo grantiau perthnasol hyd at £250,000.

Mae pedwar Grŵp Ymgynghorol hefyd yn adrodd i'r Cyngor: y Grŵp Monitro Cydraddoldebau, Grŵp Monitro Cenedlaethau'r Dyfodol, Grŵp Monitro'r Gymraeg a Phwyllgor Ymgynghorol Cymru yn Fenis.

Nodir cylch gwaith penodol y Pwyllgor hwn isod.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Cyngor bob blwyddyn. Cafodd y ddogfen hon ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mai 2020.

Rôl y Pwyllgor:

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol i'w cynorthwyo i gyflawni eu cyfrifoldebau am faterion yn ymwneud â recriwtio, cadw a rheoli staff; am dâl ac amodau gwasanaeth wrth fodloni anghenion llywodraethu'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y sefydliad; ac i sicrhau eu bod yn cyfrannu'n effeithiol at gyflawni nod strategol y Cyngor a diwallu ei anghenion busnes.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am osod a monitro targedau perfformiad blynyddol y Prif Weithredwr, ac am argymhell i'r Cyngor gydnabyddiaeth ariannol flynyddol y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd, yn amodol ar y terfynau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ac ar gytundeb ganddi.

1. Penodiadau:

Goruchwylio, cynghori ar a monitro'r broses Benodiadau. Mae hyn yn cynnwys:

1.1 Recriwtio'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr

1.2 Cynghori Llywodraeth Cymru ar recriwtio darpar aelodau o'r Cyngor

- 1.3 Monitro priodoldeb y prosesau penodiadau ar gyfer ein strwythurau llywodraethu a chynghori (Aelodau'r Pwyllgor, Gydweithwyr Celfyddydol).

2. Trosolwg ar Adnoddau Dynol:

- 2.1 Monitro system cydnabyddiaeth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru ochr yn ochr â sefydliadau meincnodi priodol, er mwyn gallu denu, cadw ac ysgogi staff â chymwysterau addas mewn marchnad gystadleuol, yn amodol ar gytundeb priodol gan Lywodraeth Cymru, ac oddi mewn i gyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael.
- 2.2 Monitro'r polisiâu sy'n ymwneud â recriwtio, dethol, hyfforddi, ysgogi, datblygu, perfformio, gwobrwyo a chadw staff.
- 2.3 Monitro dangosyddion ac adroddiadau rheoli allweddol sy'n ymwneud ag Adnoddau Dynol.
- 2.4 Ystyried a chytuno ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'r polisiâu Cwyno, Disgyblu ac Aflonyddu, a Gwerthuso Swydd.
- 2.5 Ystyried a phenderfynu ar apeliadau perthnasol a wnaed o dan amodau'r polisiâu Cwyno, Disgyblu ac Aflonyddu, a Gwerthuso Swydd.

3. Cydnabyddiaeth Ariannol y Prif Weithredwr:

- 3.1 Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am osod, ac argymhell i'r Cyngor, dargedau perfformiad blynyddol y Prif Weithredwr, gan ystyried strategaethau a blaenoriaethau cytunedig y Cyngor. Wrth wneud hynny, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.
- 3.2 Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am adolygu cyrhaeddiad y Prif Weithredwr yn erbyn y targedau perfformiad blynyddol y cytunwyd arnynt yn flaenorol.
- 3.3 Wedi ystyried a gyflawnwyd y targedau, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am argymhell dyfarniad cyflog blynyddol y Prif Weithredwr i'r Cyngor, yn amodol ar y terfynau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

4. Cydnabyddiaeth Ariannol y Cadeirydd a'r aelodau

- 4.1 Cafodd Cydnabyddiaeth Ariannol y Cadeirydd ei chymeradwyo gan y Comisiwn Elusennau ac yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cyfrin Gyngor, caiff ei hadlewyrchu yn ein Siarter Frenhinol.

O dan delerau Siarter Frenhinol Cyngor y Celfyddydau, mae unrhyw gynnig i gydnabod aelodau'n ariannol yn amodol yn yr un modd ar gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Comisiwn Elusennau, ac os oes angen, diwygiadau priodol i'r Siarter Frenhinol gan y Cyfrin Gyngor.

Byddai angen i unrhyw gais o'r fath i'r Comisiwn Elusennau am gytundeb i gynnig cydnabyddiaeth ariannol i aelodau, neu i newid yn sylweddol unrhyw lefelau o gydnabyddiaeth ariannol i'r Cadeirydd y cytunwyd arnynt yn flaenorol, ystyried yn llawn a phennu'r dyletswyddau a gyflawnwyd gan yr aelodau neu'r Cadeirydd sy'n fwy na'r rhai a ddisgwylir yn arferol gan ymddiriedolwr elusen, yr oriau mae eu hangen i gyflawni'r dyletswyddau hynny, a'r lefel perfformiad gofynnol ac, yng ngoleuni'r ystyriaethau hyn, benderfynu ar y lefel gydnabyddiaeth briodol.

- 4.2 Mae gan y Pwyllgor bwerau dirprwyedig i bennu lefelau cydnabyddiaeth ariannol Cadeirydd y Cyngor, yn amodol ar y terfynau a osodir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i Gadeiryddion Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Lle bydd hyn yn golygu newid sylweddol i'r gydnabyddiaeth y cytunwyd arni'n flaenorol, bydd angen cymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau ymlaen llaw.
- 4.3 Mae gan y Pwyllgor, gyda chymeradwyaeth flaenorol y Cyngor llawn, yr awdurdod i wneud cais, wedi ystyried y cyngor priodol, i'r Comisiwn Elusennau am gymeradwyaeth i ddyfarnu cydnabyddiaeth ariannol i aelodau.
- 4.4 Os yw'r Comisiwn Elusennau, ac os yn briodol, y Cyfrin Gyngor, wedi eu cymeradwyo, bydd gan y Pwyllgor bwerau dirprwyedig i bennu lefelau cydnabyddiaeth ariannol aelodau, yn amodol ar y terfynau a osodir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru.
- 4.5 Lle bo'n berthnasol ac wedi sicrhau'r gymeradwyaeth ysgrifenedig angenrheidiol ymlaen llaw gan y Comisiwn Elusennau, gall y Pwyllgor bennu'n flynyddol yr angen yn ystod y flwyddyn olynol i wneud taliadau mewn perthynas â cholli enillion, ar sail unigol, i aelodau a benodwyd i'r Cyngor. Wrth bennu lefel cydnabyddiaeth ariannol am enillion a gollwyd i aelodau'r Cyngor, bydd y Pwyllgor yn rhoi sylw i'r argymhellion a wneir o dro i dro gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i Gadeiryddion ac aelodau eraill cyrff cyhoeddus a noddir.

Cadeirydd: Michael Griffiths OBE, Aelod o'r Cyngor

Penodwyd gan: Y Cyngor

Aelodau: Wrth benodi aelodau'r Pwyllgor, bydd y Cyngor yn penodi un aelod i weithredu fel y Cadeirydd ac un arall fel ei ddirprwy pan na fydd y Cadeirydd yn bresennol.

Bydd y pwyllgor yn cynnwys 5 aelod a benodir gan y Cyngor. Rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor fod yn aelod o'r Cyngor. Bydd o leiaf 2 aelod yn aelodau'r Cyngor, ac o leiaf un yn aelod annibynnol.

Yr aelodau cyfredol yw:

Enw	Swydd	Cyfnod y Penodiad
Michael Griffiths OBE	Aelod o'r Cyngor Cadeirydd	Mawrth 2018 – Mawrth 2021 O Ebrill 2017
Kate Eden	Aelod o'r Cyngor	Hyd Mawrth 2023
Alison Mears Esswood	Aelod o'r Cyngor	Hyd Mawrth 2022
Phil Westwood	Aelod annibynnol	Mawrth 2015 – Awst 2021
Valerie Ellis	Aelod annibynnol	Chwefror 2019 – Ionawr 2022

Caiff Cadeirydd y Cyngor fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor i arsylwi arnynt, ac i gymryd rhan yn y gwaith o osod targedau ar gyfer y Prif Weithredwr ac asesu ei berfformiad.

Caiff gweithdrefnau eu mabwysiadu ac wedyn eu nodi'n fanwl yn y Cylch Gorchwyl hwn i sicrhau na chaiff Aelodau o'r Cyngor eu cynnwys mewn unrhyw drafodaeth ynghylch eu cydnabyddiaeth ariannol eu hunain, os cyfyd sefyllfa o'r fath yn y dyfodol.

Ni ellir penodi aelod o'r corff gweithredol yn aelod o'r Pwyllgor.

Mae'n ofynnol i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau fod yn bresennol yn y cyfarfodydd oni phenderfynwyd fel arall gan Gadeirydd y Pwyllgor. Fodd bynnag, ni chaiff y Prif Weithredwr gymryd rhan mewn, na bod yn bresennol yn ystod, unrhyw drafodaeth o'r fath o'i gydnabyddiaeth ariannol (heblaw i ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor).

Disgwylir i'r Rheolwr Adnoddau Dynol fynd i'r cyfarfodydd hefyd fel arfer. Gellir gwahodd Cyfarwyddwyr ac uwch aelodau eraill o'r staff i gyfarfodydd pan fydd y Pwyllgor yn trafod meysydd risg neu weithredu sy'n gyfrifoldeb ar yr unigolyn hwnnw.

Cworwm: 3 aelod (rhaid i 2 ohonynt fod yn aelodau o'r Cyngor)

Atebolrwydd: Mae'r Pwyllgor wedi'i rwymo gan god moesegol y Cyngor fel y'i nodir yn y Cod Ymarfer Gorau. Mae'n ofynnol i'r aelodau lenwi ffurflen datganiad o fuddiant a gaiff ei diweddarau'n flynyddol, a darparu diweddariadau os yw amgylchiadau aelod yn newid. Mae hefyd yn ofynnol i aelodau ddatgan unrhyw fuddiant ym mhob cyfarfod.

Ni chaiff aelodau'r Pwyllgor fod yn bresennol yn ystod trafodaethau'n ymwneud â'u dyfarniad tâl penodol nac argymhellion arno.

Cyfarfodydd:	Teirgwaith y flwyddyn fel arfer. Mae'r dyddiadau i gael eu pennu ymlaen llaw.
Papurau:	Caiff y papurau eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor wythnos cyn y cyfarfod. Rhaid i'r holl bapurau a'r cofnodion cyfarfodydd dilynol gael eu ffeilio ar system rheoli data a chofnodion electronig y Cyngor o dan Cyfarfodydd/ Cyngor a Phwyllgorau / Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol.
Adrodd:	Bydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Cyngor o leiaf unwaith y flwyddyn. Caiff y Pwyllgor ei gynghori gan y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau a Rheolwr Adnoddau Dynol.
Cofnodion Cyfarfodydd a Chofnodion:	Yng ngoleuni'r nifer gyfyngedig o gyfarfodydd a gynhelir, caiff y cofnodion eu darparu i gyfarfod nesaf y Cyngor, yn lle adroddiad blynyddol ffurfiol. Fodd bynnag, caiff yr arfer hon ei hadolygu os bydd nifer y cyfarfodydd a busnes y Pwyllgor yn cynyddu. Mae'r Tîm Adnoddau Dynol yn sicrhau y cedwir cofnodion cyflawn, ar bapur ac ar ffurf electronig.
Diweddarwyd:	Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Cafodd y ddogfen hon ei diweddarau diwethaf ym mis Mai 2020.